

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ward 1
a Ward 2B

Dyddiad yr arolygiad: 4,5,6

Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	29
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Glan Clwyd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 4, 5, 6 Gorffennaf 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd ysbyty a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Glan Clwyd

- Ward 1
- Ward 2B

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau ysbyty yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuwyd rhywfaint o dystiolaeth gennym nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn hapus gyda'r gofal a dderbyniwyd
- Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da
- Rhoddir sylw i hydradiad a maetheg
- Darperir gofal mewn ffordd ddiffwdan
- Ymgysylltiad da gan y staff gyda'r cleifion wrth ddarparu gofal
- Asesiadau risg cyffredinol a phenodol da
- Prosesau rheoli heintiau da
- Staff agored a dymunol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Lefelau staffio (Ward 1)
- Cymorth a goruchwyliaeth staff (Ward 1)
- Hyfforddiant staff (Ward 1)
- Cysondeb o ran cadw cofnodion
- Gwneud yr amgylchedd yn fwy ystyriol o ddementia
- Defnydd o'r ystafell weithgareddau
- Ymgysylltiad y staff gyda'r cleifion.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, yn darparu pob math o wasanaethau ysbyty sylfaenol, cymuned, iechyd meddwl ac aciwt ar gyfer poblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe sir y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam). Mae gan y Bwrdd Iechyd weithlu o tua 16,500.

Ceir tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a thimau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydgysylltu gwaith 109 o feddygfeydd teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

Ysbyty Glan Clwyd yw'r ysbyty cyffredinol dosbarth ar gyfer ardal ganolog gogledd Cymru. Fe'i hadeiladwyd ym 1980 ac mae wedi ei leoli mewn amgylchedd gwledig ym Modelwyddan, cymuned fach sydd tua 4 milltir i'r de o'r Rhyl. Mae'r ysbyty'n gwasanaethu poblogaeth o tua 195,000. Ceir cyfanswm o 684 o welyau yn y gwasanaeth ysbyty aciwt, ag ystod lawn o arbenigeddau. Ceir cyfanswm o 294 o welyau yn Ysbyty Glan Clwyd, gydag ystod lawn o arbenigeddau.

Uned gofal henoed 24 gwely yw Ward 1.

Uned gofal henoed 14 gwely yw Ward 2B. Mae'r ward yn rhannu rhai cyfleusterau gyda ward drws nesaf, (Ward 2A) sy'n uned llawdriniaeth Clustiau, Trwyn a Gwddf arbenigol ac uned llawdriniaeth gên ac ar wyneb.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad fodlonrwydd â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd ar y ddwy ward. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig a gofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn modd a oedd yn dangos urddas a pharch.

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn gallu symud yn rhydd o gwmpas y wardiau. Gwelsom y staff yn rhoi sylw i'r cleifion a oedd angen cymorth un i un mewn ffordd ddigyffro a chysurol. Roedd yr amgylchedd ar y ddwy ward yn lân a thaclus. Fodd bynnag, roedd Ward 2B, a oedd yn aros i gael ei hailwampio, yn amgylchedd mwy prysur ac roedd yn ymddangos braidd yn anniben ar adegau penodol yn ystod yr arolygiad. Roedd Ward 2B yn rhannu rhai cyfleusterau gyda ward drws nesaf, (Ward 2A) a oedd yn uned llawdriniaeth Clustiau, Trwyn a Gwddf. Roedd hyn yn ychwanegu at y teimlad prysur ar Ward 2B gyda mwy o staff, ymwelwyr a chleifion.

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr yn ystod yr arolygiad i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir. Cawsom sgysiau gyda nifer o gleifion hefyd yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Yn barod i helpu bob amser. Yn dod pryd bynnag y mae eu hangen."

"Mae rhywun yn glanhau bob amser."

"Glân a thaclus iawn."

"Da iawn. Yn rhoi help llaw pryd bynnag y bo angen ac yn hawdd cael eu sylw."

Cadw'n iach

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyn belled ag oedd yn bosibl. Pan nad oedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, oherwydd problemau gyda'u cof, canfuwyd gennym fod perthnasau yn cael eu hymgyngori a'u hannog i wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth o ofal yn unol â'r safonau iechyd a gofal.

Roedd y ddwy ward yn hyrwyddo amser bwyd a ddiogelir. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd cleifion yn cael eu tarfu heb fod angen yn ystod amser bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn maeth a hylif digonol. Fodd bynnag, pan ystyriwyd ei fod yn briodol, roedd perthnasau'n cael eu hannog i ymweld yn ystod amser bwyd er mwyn rhoi cymorth a chefnogaeth i gleifion gyda'u prydau bwyd. Roedd perthnasau hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn agweddau ar ofal cleifion ac roedd cynllun 'Pasbort Gofalwyr'¹ ar waith ar y wardiau.

Arsylwyd ar amseroedd bwyd gennym a gwelsom y staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, heb frysio a chan ddangos urddas a chaniatáu digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu bwyd. Gwelsom staff hefyd yn rhoi anogaeth a chymorth i gleifion fwyta'n annibynnol.

Roedd sylw penodol yn cael ei roi iechyd y geg cleifion er mwyn gwella eu llesiant.

Gwelsom ryngweithio da rhwng staff a chleifion gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion y cleifion mewn ffordd ddiffwdan a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cynorthwyo i wneud pethau drostynt eu hunain gan gynnal eu hannibyniaeth. Gwelsom staff hefyd yn cynnwys cleifion mewn penderfyniadau am weithgareddau beunyddiol.

Roedd ystafell weithgareddau wedi'i lleoli yn y coridor rhwng y ddwy ward lle'r oedd eitemau fel gemau, posau a llyfrau i ysgogi a difyrru'r cleifion. Fodd

¹ Ffordd o nodi perthnasau cleifion yr ystyrir fel eu prif ofalwyr yw hon, fel y gellir eu cynorthwyo a'u galluogi hwythau hefyd i ymweld ar bron i unrhyw adeg i gynorthwyo gyda bwydo, gwisgo neu ddim ond i gadw cwmni i'r cleifion.

bynag, nid oedd rhai cleifion y bu i ni siarad â nhw yn ymwybodol o'r cyfleuster hwn. Cyflogir gweithiwr cymorth gofal dementia ac roedd hyn wedi gwella ymgysylltiad unigol gyda'r cleifion. Fe'n hysbyswyd bod y gweithiwr cymorth dementia hefyd yn cyflawni rhai dyletswyddau gweithiwr cymorth gofal iechyd fel gofal personol ar adegau o anawsterau staffio, er mwyn cynorthwyo â diogelwch a gofal cleifion.

Prin oedd y dystiolaeth a welwyd gennym o weithgareddau'n cael eu cynnal ar wardiau ac awgrymwyd y gellid gwneud mwy i ddiddanu'r cleifion, yn enwedig y cleifion hynny sy'n cael eu harsylwi'n agos neu'n derbyn cymorth un i un.

Roedd y cynllun 'Pili Pala' ar waith ar y ddwy ward, lle defnyddiwyd symbolau Pili pala i nodi cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol a oedd angen cymorth ychwanegol neu wahanol ddull o ddarparu gofal. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod ei ddefnydd yn anghyson ar draws y ddwy ward. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd y symbol pili pala yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn yn nodiadau gofal y cleifion i nodi'r rheini â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol fel y gallai'r staff ddefnyddio technegau Pili Pala wrth roi sylw i gleifion neu gyfathrebu â nhw.

Canfuwyd gennym y gellid gwneud mwy i wella arwyddion ar y ddwy ward i wneud yr amgylchedd yn fwy ystyriol o ddementia ac i annog annibyniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd annog defnydd o'r ystafell weithgareddau a sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o'i bodolaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau ei recriwtio fel y gellir canolbwyntio sgiliau arbennig y gweithiwr cymorth dementia yn llwyr ar ofal a chymorth cleifion â dementia.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y darperir mwy o weithgareddau er mwyn diddanu cleifion, yn enwedig y cleifion hynny sy'n cael eu harsylwi'n agos neu'n derbyn cymorth unigol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynllun 'Pili Pala' yn cael ei weithredu'n gyson ar draws bob ward a bod y symbol pili pala'n cael ei ddefnyddio fel mater o drefn i nodi'r cleifion hynny â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol fel y gall staff ddefnyddio technegau priodol wrth roi sylw i gleifion neu gyfathrebu â nhw.

Dylai'r bwrdd iechyd wella arwyddion ar y ddwy ward i wneud yr amgylchedd yn fwy ystyriol o ddementia ac i annog annibyniaeth.

Gofal ag urddas

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn bod yn garedig gyda'r cleifion ac yn dangos parch tuag atynt. Gwelsom y staff yn ymdrechu i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da wrth i'r staff roi sylw arbennig i ymddangosiad a dillad pobl. Roedd cofnodion dyddiol hylendid cleifion yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda hyn.

Roedd yr amgylchedd ar y ddwy ward yn amlwg yn lân, gan ychwanegu at y synnwyr o lesiant cleifion.

Roedd cymysgedd o staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ar y wardiau. Roedd hyn yn galluogi'r cleifion i drafod eu hanghenion gofal a chymorth yn yr iaith o'u dewis.

Gwybodaeth cleifion

Roedd gwybodaeth hybu iechyd i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr wedi ei harddangos ac ar gael ar y wardiau. Roedd gweithdrefn gwynion ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â 'Gweithio i Wella'². Roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi ei harddangos ar y wardiau ac mewn manau cyhoeddus eraill yn yr ysbyty.

Roedd hysbysfwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion yn y ddwy ward. Roedd yr hysbysfwrdd ar Ward 1 yn electronig ac roedd yr un ar Ward 2B ar ffurf bwrdd gwyn. Roedd yr hysbysfwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion electronig ar Ward 1 yn golygu bod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw mewn ffordd gyfrinachol. Fodd bynnag, roedd yr hysbysfwrdd ar Ward 2B yn fwrdd gwyn yr ysgrifennir

² Proses ar gyfer ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau, y cyfeirir atynt yn gyfunol fel "Pryderon", yw Gweithio i Wella. Mae hyn yn newid diwylliant sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o'i le, gan gyflwyno un dull cyson ar gyfer graddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â natur fwy agored a chynnwys yr unigolyn sy'n lleisio'r pryder.

arno â llaw, a oedd yn rhestru enwau'r cleifion ac yn cyfeirio at wybodaeth sensitif arall. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu sut y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar y bwrdd gwyn ar Ward 2B er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.

Awgrymwyd gennym y byddai darparu hysbysfwrdd adnabod y staff yn esbonio arwyddocâd y gwisgoedd o wahanol liwiau yn cynorthwyo cleifion ac ymwelwyr yn fawr i nodi 'pwy yw pwy' a beth oedd eu swyddogaethau ar y wardiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu sut y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar y bwrdd gwyn ar Ward 2B er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hysbysfyrddau adnabod y staff ar y ddwy ward i gynorthwyo cleifion ac ymwelwyr i nodi 'pwy yw pwy' a beth yw eu swyddogaethau ar y wardiau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn cyfathrebu gyda'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn dangos urddas trwy gydol ein hymweliad arolygu. Anerchwyd y cleifion gan ddefnyddio'r enwau yr oedd yn well ganddynt. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd galonogol a chynhwysol.

Fel y soniwyd eisoes, roedd rhai o'r staff yn siaradwyr Cymraeg sy'n sicrhau y gall y cleifion dderbyn gofal yn yr iaith o'u dewis.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod prosesau asesu a chynllunio gofal cyffredinol dda ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen canllawiau mwy eglur i'r staff ar asesu cleifion sy'n cael eu hail-dderbyn i'r wardiau er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal yn cael eu nodi.

Roedd timau'r wardiau yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd aml-ddisgyblaeth i ddarparu gofal unigoleddig i'r cleifion yn unol â'u hanghenion a aseswyd. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol hyfywedd meinwe, y deietegydd a'r therapydd lleferydd ac iaith.

Canfuwyd gennym fod cymysgedd o gleifion yn derbyn gofal ar y wardiau. Roedd unigolion ag anghenion gofal iechyd corfforol aciwt a chleifion â

gwahanol lefelau o nam gwybyddol. Er nad oedd yn wir ar adeg yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym eu bod weithiau'n ei chael yn anodd bodloni'r gofynion gofal amrywiol sy'n deillio o'r gymysgedd o gleifion yn effeithiol ac y byddai anghenion rhai cleifion yn cael eu diwallu'n well mewn cyfleusterau gofal dementia mwy arbenigol. Dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r gymysgedd o gleifion ar y ddwy ward i sicrhau bod cleifion yn cael eu derbyn i'r cyfleuster mwyaf priodol ac y gellir diwallu eu hanghenion yn llawn. Dylai'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant i'w cynorthwyo i ddarparu gofal i bobl â nam gwybyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu canllawiau mwy eglur i'r staff ar asesu cleifion sy'n cael eu haillderbyn i'r wardiau i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal yn cael eu nodi.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r gymysgedd o gleifion ar y ddwy ward i sicrhau bod cleifion yn cael eu derbyn i'r cyfleuster mwyaf priodol ac y gellir diwallu eu hanghenion yn llawn.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu gofal i bobl â namau gwybyddol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Canfuwyd gennym fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â sut yr oeddent yn dymuno derbyn gofal trwy ddefnyddio dogfennau asesu 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi' a 'Dyma Fi'. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y defnydd o'r dogfennau hyn yn anghyson.

Trwy ein sgysiau gyda staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu hanghenion gofal beunyddiol. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn cynorthwyo ac yn darparu gofal pan roedd ei angen. Gwelsom y staff yn annog ac yn cynorthwyo cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, gwelsom staff yn annog cleifion i gerdded ac yn eu cynorthwyo i fwyta ac yfed yn annibynnol.

Gwelsom hefyd fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal urddas, hybu annibyniaeth a chynorthwyo gyda'u hadsefydliad a'u paratoi i gael eu rhyddhau'n ddiogel.

Canfuwyd gennym fod systemau addas ar waith i ryddhau cleifion gyda'r cleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill fel nyrs cyswllt seiciatrig, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr ysbyty. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod oediadau cyn rhyddhau rhai cleifion. Roedd yr oediadau hyn yn ymwneud â diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol addas yn bennaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd gymryd mesurau i sicrhau y defnyddir y dogfennau 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi' a 'Dyma Fi' mewn ffordd gyson ar draws y ddwy ward.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn darparu gofal mewn ffordd sy'n hybu ac yn gwarchod hawliau pobl.

Canfuwyd gennym fod y staff yn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd sengl wedi eu cau a defnyddiwyd llenni o gwmpas ardaloedd gwelyau unigol pan roedd gofal yn cael ei ddarparu.

Roedd atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu gwneud yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, canfuwyd gennym, yn y mwyafrif o achosion, bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r wardiau cyn y gellid cynnal asesiad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ffurfiol.

Roedd y drysau yn arwain i Ward 1 wedi eu cloi yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i gleifion ac ymwelwyr a oedd yn dymuno mynd i'r wardiau a'u gadael ofyn i aelod o staff agor y drysau gan ddefnyddio cerdyn allwedd. Gallai hyn gael ei ystyried fel cyfyngiad ar ryddid pobl. Trafodwyd hyn gyda Rheolwr y Ward, y Fetron a'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol a esboniodd fod cloi'r drysau yn dibynnu ar asesiad risg o gleifion ar y wardiau a bod system tair haen ar waith lle byddai'r drysau'n cael eu hagor pe na bai unrhyw gleifion yr oedd perygl y byddent yn cerdded allan o'r ward ar eu pen eu hunain, yn cael eu hagor trwy ddefnyddio botwm gwyrdd os oedd y perygl y byddai cleifion yn cerdded allan ar eu pen eu hunain yn isel neu'n cael eu cloi'n llawn ac yn gallu cael eu hagor gyda cherdyn allwedd yn unig os oedd perygl

uchel y byddai cleifion yn cerdded allan o'r ward ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, ni welsom brotocol ysgrifenedig yn ymwneud â hyn ac awgrymwn y dylid llunio protocol o'r fath a'i rannu gyda'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd lunio protocol eglur ar y defnydd o ddrysau wedi eu cloi ar Ward 1 a sicrhau bod y protocol hwn yn cael ei rannu gyda'r holl staff.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd cyfleoedd i gleifion a'u cynrychiolwyr gynnig adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, trwy drafodaethau wyneb yn wyneb gyda'r staff.

Roedd systemau da ar waith ar gyfer rheoli cwynion ac fe'n hysbyswyd gan y staff bod nifer y cwynion a dderbynnir am y gwasanaeth ar y ddwy ward yn brin iawn. Fel y soniwyd eisoes, roedd poster i Gweithio i Wella ar gael ar y ddwy ward ac mewn manau cyhoeddus eraill drwy'r ysbyty.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuwyd gennym fod y timau staff ar y ddwy ward wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer priodol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac i atal cleifion rhag cwmpo.

Roedd y wardiau'n lân ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth cadarn ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion i hybu eu llesiant a'u diogelwch.

Roedd Ward 2B yn gynnes iawn yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn oherwydd bod y tymheredd y tu allan yn weddol uchel ar adeg yr arolygiad ac nad oedd unrhyw system aerdymheru ar gael.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuwyd gennym fod y ddwy ward wedi eu cynnal a'u cadw'n briodol a bod systemau ar waith i hysbysu am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u trwsio. Roedd Ward 1 wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar a disgwyliwyd i Ward 2B gau yn ystod chwe mis nesaf er mwyn cael ei hailwampio.

Roedd archwiliadau cyffredinol ac archwiliadau clinigol ac asesiadau risg mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r perygl o niwed i gleifion a staff.

Roedd Ward 2B yn gynnes iawn yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn oherwydd bod y tymheredd y tu allan yn weddol uchel ar adeg yr arolygiad ac nad oedd unrhyw system aerdymheru ar gael.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r tymheredd ar ward 2B a chymryd camau cywiro i sicrhau cysur cleifion, ymwelwyr a staff.

Atal niwed pwysu a meinwe

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion o ran eu perygl o ddatblygu niwed pwysu i'w croen. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y staff yn cymryd camau priodol i atal cleifion rhag datblygu niwed pwysu a meinwe.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal ar y ddwy ward a chadarnhawyd fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio offeryn asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom fod cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau, yn dangos bod croen cleifion wedi cael ei archwilio'n rheolaidd ar gyfer arwyddion o niwed pwysu. Roedd offer lleddfu pwysau priodol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu niwed pwysu.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod cleifion wedi cael eu cynorthwyo neu eu hannog i symud eu lleoliad pan roeddent yn y gwely, neu mewn cadair freichiau, yn rheolaidd. Gwelsom y staff yn cynorthwyo ac yn annog cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'n hysbys bod y ddwy ymyrraeth nyrsio hyn yn helpu i leihau'r posibilrwydd y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwysu.

Atal cwmpau

Canfuwyd gennym o archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol ar y ddwy ward bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal i leihau'r perygl o gwmpau a bod camau prydlon yn cael eu cymryd mewn ymateb.

Gallem weld o'r cofnodion yr edrychwyd arnynt y bu cynnydd yn nifer y cwmpau gan gleifion ar Ward 1 dros y mis blaenorol. Nid oedd yn bosibl canfod a oedd hyn yn gysylltiedig â lefelau staffio. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r achosion o gwmpau a chymryd mesurau priodol i leihau'r peryglon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r achosion o gwmpau ar Ward 1 a chymryd mesurau priodol i leihau'r peryglon.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a chanfuwyd gennym fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Gwelsom fod archwiliadau golchi dwylo wedi cael eu cynnal yn ddiweddar gyda sgôr canlyniad cadarnhaol o 100 y cant. Roedd y rhain, ynghyd â chanlyniadau archwiliadau eraill, wedi eu harddangos ar hysbysfyrddau ar y ddwy ward i gleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn defnyddio'r rhain. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi eu lleoli'n strategol ger mynedfeydd/allanfeydd i'r staff ac ymwelwyr eu defnyddio er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom y staff yn glanhau offer yn drylwyr rhwng eu defnyddio gyda gwahanol gleifion a oedd yn lleihau'r perygl o groes-heintio ac yn cyfrannu'n fawr at yr amgylchedd glân ar y ddwy ward.

Maetheg a hydradiad

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi cael eu hasesu. Gwelsom hefyd staff yn cynorthwyo'r cleifion i fwyta ac yfed mewn ffordd a oedd yn dangos urddas ac nad oedd yn frysio.

Gwelsom fod diodydd ar gael yn barod ac o fewn cyrraedd i'r cleifion. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu amrywiaeth o gwpanau a biceri e.e. biceri dwy law, i gynorthwyo'r cleifion hynny sy'n fustrig yn gorfforol neu'r rheini â nam gwybyddol i gynnal eu hannibyniaeth.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro'n cael eu defnyddio yn ôl y gofyn i sicrhau bod y cleifion yn derbyn digon o faeth a hylif. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y defnydd o siartiau cymeriant a chynnyrch maetheg a hylif yn anghyson ar draws y ddwy ward.

Roedd pwysau'r cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd i asesu pa un a oeddent wedi eu maethu'n dda ac effeithiolrwydd y gofal.

Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini. Roedd yn ymddangos bod y prydau wedi eu cyflwyno'n dda a'u bod yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau'r defnydd cyson o siartiau cymeriant a chynnyrch ar draws y ddwy ward.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion a chanfuwyd fod y broses yn cyd-fynd â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth heb frysio, gan gymryd amser i sicrhau bod y cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu neu ddioddef trallod.

Roedd fferyllydd yn ymweld â'r ward yn ddyddiol i gynnal archwiliadau meddyginiaeth ac i gynnig cyfarwyddyd a chymorth i'r staff.

Nid oedd yr un o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar adeg yr arolygiad yn cymryd eu meddyginiaeth eu hunain. Dylid asesu gallu cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hyn yn annog annibyniaeth ac yn cynnal a gwella sgiliau cyn rhyddhau cleifion yn ddiogel o'r ysbyty.

Roedd peiriant storio a rhoi meddyginiaeth electronig yn cael ei ddefnyddio ar Ward 1.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gallu cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain yn cael ei asesu.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw broblemau diogelu ar yr un o'r ddwy ward ar adeg yr arolygiad.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth dda o weithio amlddisgyblaeth rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

Canfuwyd gennym fod proses drosglwyddo effeithiol ar waith rhwng sifftiau staff. Roedd hyn yn golygu bod mecanwaith ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth gofal a diogelwch berthnasol am yr holl gleifion. Roedd gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod unrhyw nodiadau a gymerwyd gan y staff yn ystod y sesiwn drosglwyddo yn cael eu dinistrio ar ôl pob sifft.

Gwelsom nifer o offerynnau asesu cleifion wedi'u cwblhau yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol arfer gorau a mentrau cenedlaethol yn y sampl o gofnodion cleifion yr edrychwyd arnynt. Roedd hyn gyda'r nod o helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr enghreifftiau a welsom yn cynnwys y rheini'n ymwneud ag atal briwiau pwyso a sicrhau maetheg ddigonol. Roedd y llwybr gofal dementia yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod anghenion cleifion â diagnosis o ddementia neu â nam gwybyddol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw offeryn asesu ffurfiol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion nad oeddent yn gallu mynegi anghysur neu boen ar lafar h.y. graddfa boen Abbey.

Gwelsom hefyd fod bwndeli gofal, yn gysylltiedig â'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)³, yn cael eu gweithredu fel ffordd strwythuredig o wella'r prosesau o ofal a chanlyniadau i gleifion yn gysylltiedig ag atal briwiau pwyso, sicrhau maetheg ddigonol a nodi cleifion a oedd mewn perygl o ddirywio trwy salwch aciwt neu sepsis. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y sgoriau NEWS ar Ward 1 yn anghyson ac nad oedd unrhyw ddogfennau ysgrifenedig i gefnogi penderfyniadau ynghylch pam nad oedd bwndeli gofal wedi cael eu rhoi ar waith neu pam nad oedd y sgoriau wedi cael eu huwchgyfeirio.

Roedd staff ychwanegol wedi eu trefnu i ddarparu goruchwyliaeth ofalus ar gyfer cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol mewn un cilfan ar

³ System genedlaethol yw NEWS ar gyfer adnabod cleifion sâl iawn y mae eu cyflwr yn dirywio ac sydd angen gofal meddygol neu nyrsio mwy dwys.

Ward 1. Canfuwyd gennym yn ystod yr ymweliad arolygu y daethpwyd â nyrs asiantaeth i mewn i ddarparu'r cymorth ychwanegol hwn. Roedd aelodau o'r tîm arolygu yn pryderu am y rhyngweithio gwael rhwng yr aelod o staff asiantaeth a'r cleifion, a gwelwyd yr aelod o staff yn defnyddio ei ffôn symudol ac yn ymddangos fel pe bai'n syrthio i gysgu ar adegau. Tynnwyd sylw dirprwy reolwr y ward at hyn a chymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Trafodwyd y mater hefyd gyda'r fetron a'r cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol, a gytunodd i roi sylw pellach i'r mater hwn gyda'r asiantaeth dan sylw. Cyfeirir at hyn ymhellach yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir offeryn asesu priodol pan nad yw cleifion yn gallu mynegi anghysur neu boen ar lafar.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir system sgorio NEWS mewn ffordd gyson a bod dogfennau ysgrifenedig yn cefnogi penderfyniadau ynghylch pam nad yw bwndeli gofal wedi cael eu rhoi ar waith neu pam nad yw'r sgoriau'n cael eu huwchgyfeirio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol yn gyffredinol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Cadarnhawyd gennym o archwilio cofnodion hyfforddi fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Fe'n hysbyswyd bod gwaith ar y gweill i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig i'w defnyddio ar draws y bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o nodiadau gofal cleifion a chanfuwyd gennym eu bod wedi eu cadw'n dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y nodiadau gofal yn swmpus iawn a oedd yn ei gwneud yn anodd eu defnyddio.

Fel y soniwyd eisoes, roedd hanes cymdeithasol a dymuniadau'r cleifion wedi eu nodi a'u cofnodi mewn llyfrynnau 'Dyma Fi' ac 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi'. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod angen gwneud rhywfaint o waith i sicrhau

cysondeb o ran y defnydd o'r dogfennau hyn. Canfuwyd gennym hefyd bod y broses o gofnodi gallu cleifion i wneud penderfyniadau yn anghyson.

Canfuwyd gennym fod rheolwyr y wardiau a'r fetron yn cynnal archwiliadau misol o gofnodion gofal i sicrhau cywirdeb a chydymffurfiad â pholisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd. Roedd y cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol yn adolygu cofnodion gofal fel mater o drefn yn ystod y teithiau cerdded o amgylch y wardiau er mwyn sicrhau cydymffurfiad yn erbyn safonau gofynnol. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan un aelod o staff nad yw'r holl staff yn cofnodi gwybodaeth yn gywir. Tynnwyd sylw'r cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol at y mater hwn a chytunodd i gynyddu'r archwiliadau a'r monitro o gofnodion cleifion yn y maes dan sylw i gael sicrwydd bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni.

Canfuwyd gennym fod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw o'r golwg ar y ddwy ward i gynnal cyfrinachedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o symleiddio nodiadau'r cleifion i'w gwneud yn haws eu defnyddio.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd mesurau i sicrhau bod gallu cleifion i wneud penderfyniadau yn cael ei gofnodi'n gyson.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses archwilio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir yn nodiadau gofal y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, canfuwyd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda gennym, gyda'r staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol yn gyffredinol ar y cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan reolwr y ward, yn enwedig ar Ward 2B. Fodd bynnag, roedd y rheolaeth ar Ward 1 yn cael ei amharu gan y prinder staff a rheolwr y ward yn cael ei alw i fwrdd o gyfrifoldebau gweinyddol a rheoli i gynorthwyo ar y llawr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith yn gyffredinol a bod diwylliant agored a chefnogol yn bodoli. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur rheoli uwch yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff yn effeithiol yn gyffredinol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y bwrdd iechyd wedi llunio strategaeth gwella ansawdd gyda'r nod o godi safonau a gwella canlyniadau i gleifion ar draws yr holl wasanaethau, a gwnaed copi ohoni ar gael i ni yn ystod yr ymweliad arolygu.

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy raglen barhaus o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaeth cynnar yn y bore yn ddyddiol ac mae'r tîm pryderon yn eu mynychu. Caiff yr holl ddigwyddiadau clinigol, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a chwynion sydd wedi codi yn ystod y cyfnod o 24 awr cyn y cyfarfod eu trafod a'u neilltuo i'r gweithiwr iechyd proffesiynol priodol eu hadolygu. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan rai staff ar Ward 1 nad yw'r uwch reolwyr bob amser yn ymateb yn effeithiol pan fydd pryderon yn cael eu lleisio ac yn aml bod diffyg ymateb pan gaiff materion eu cymryd ymhellach. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau

bod y systemau sydd ar waith i'r staff leisio pryderon neu fynegi eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol a bod y staff yn cael eu hysbysu am gamau a gymerwyd.

Roedd y fetron a'r cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol yn amlwg ar y wardiau yn ystod yr ymweliad arolygu ac fe'n hysbyswyd eu bod yn mynychu'r wardiau yn rheolaidd i gynnal gwahanol archwiliadau. Gwelsom hefyd aelod o'r tîm rheoli ar y wardiau er mwyn canfod nifer y gwelyau gwag ac i weld a oedd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff i ni siarad â nhw wrthym nad oedd hyn bob amser yn digwydd ac mai anaml y maent yn gweld aelodau o'r tîm rheoli neu'n cael cyfle i siarad â nhw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y systemau sydd ar waith i staff leisio pryderon neu fynegi eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol a bod y staff yn cael eu hysbysu am gamau a gymerwyd.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheoli yn amlwg ar y wardiau a'u bod yn gwneud eu hunain ar gael i gleifion, ymwelwyr a staff.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Canfuwyd timau staff cyfeillgar a phroffesiynol gennym, a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, er gwaethaf yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu i ddiwallu anghenion y cleifion, sy'n gymhleth ac yn newid. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu swyddogaethau ac yn wybodus am anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Edrychwyd ar gopïau o'r rota staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da o ran staff ar ddyletswydd ar bob sifft. Gallai nifer y staff ar ddyletswydd amrywio o sifft i sifft ac roedd y rota'n ystyried y cleifion hynny yr oedd angen cymorth neu oruchwyliaeth unigol arnynt.

Fe'n hysbyswyd bod swyddi nyrsys cofrestredig gwag ar Ward 1, a oedd yn golygu bod staff presennol yn gweithio sifftiau ychwanegol a bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau. Fe'n hysbyswyd bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion ar Ward 1.

Fe'n hysbyswyd bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio. Fodd bynnag, mae recriwtio'n parhau i fod yn her yn y cyd-destun cenedlaethol o brinder nyrsys, sy'n golygu bod angen mentrau yn ymestyn dramor i sicrhau nyrsys cofrestredig.

Dosbarthwyd holiaduron i'r staff er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiad o weithio ar y wardiau. Derbyniwyd 13 o holiaduron wedi'u cwblhau gennym. Roedd sylwadau'r staff yn gadarnhaol yn gyffredinol am ansawdd y gwasanaeth a'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant a oedd wedi eu helpu i wneud eu swyddi'n effeithiol. Roedd rhestr o ddigwyddiadau hyfforddi a oedd ar fin cael eu cynnal wedi ei harddangos ar hysbysfyrdau ar y ddwy ward. Dangoswyd copïau o gofnodion hyfforddi'r staff i ni a gadarnhaodd bod mwyafrif y staff ar Ward 2B wedi derbyn hyfforddiant ar bynciau 'gorfodol' fel codi a chario, iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau ynghyd â hyfforddiant ychwanegol ar gyfer cyflyrau penodol fel ymwybyddiaeth dementia. Fodd bynnag, dywedodd staff ar Ward 1 wrthym ei bod yn aml yn anodd cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi oherwydd prinder staff. Cynghorwyd gennym fod rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr holl staff wedi cyflawni hyfforddiant ym mhob pwnc gorfodol ac y rhoddir digon o gyfleoedd iddynt fynd ar gyrsiau hyfforddi eraill a fyddai'n gwella'r gwasanaeth a ddarperir ac yn elwa datblygiad gyrfaol.

Canfuwyd gennym fod prosesau goruchwyllo, cymorth a gwerthuso staff ffurfiol ac anffurfiol da ar waith ar Ward 2B. Fodd bynnag, roedd prinder staff ar Ward 1 yn golygu bod prosesau cymorth, goruchwyllo a gwerthuso ffurfiol wedi syrthio ar ei hôl hi'n ddiweddar. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod rhaid i reolwr y ward a'i dirprwyon wneud iawn am brinder staff trwy weithio'n ymarferol ar y ward. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r lefelau staffio ar Ward 1 a chymryd camau i sicrhau bod y ward wedi ei staffio'n ddigonol bob amser a sicrhau y rhoddir digon o amser a chymorth angenrheidiol i reolwr y ward gyflawni ei chyfrifoldebau gweinyddu a rheoli.

Yn gyffredinol, dywedodd aelodau staff nyrsio a gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da, ac yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan reolwr y wardiau a'r fetron er gwaethaf y prinder staff sylfaenol. Fodd bynnag, dywedodd rhai staff wrthym y byddent yn gwerthfawrogi pe bai uwch reolwr yn gofyn am eu barn a chymryd mwy o ran mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Dywedodd y staff glanhau wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u bod yn rhan fawr o dîm y ward. Fodd bynnag,

dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses trosglwyddo sifftiau i gynnwys y gweithiwr cadw tŷ er mwyn iddo dderbyn gwybodaeth am anghenion deietegol y cleifion. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ystyried ei swyddogaeth yn paratoi a gweini bwyd.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff ar y ddwy ward yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad ac yn y sesiwn adborth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl wardiau wedi eu staffio'n ddigonol bob amser. I'r perwyl hwn, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud pob ymdrech, gan weithio gyda Gwasanaethau Cyfunol y GIG i gyflymu'r broses recriwtio.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael digon o amser i fynychu hyfforddiant.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r lefelau staffio ar Ward 1 a chymryd camau i sicrhau bod y ward wedi ei staffio'n ddigonol bob amser a sicrhau y rhoddir digon o amser a chymorth angenrheidiol i reolwr y ward gyflawni ei chyfrifoldebau gweinyddu a rheoli.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses trosglwyddo sifftiau i gynnwys y gweithiwr cadw tŷ er mwyn iddo dderbyn gwybodaeth am anghenion deietegol y cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghlŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethiad a darpariaeth gwasanaethau cyfan.

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn ysbytai.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu'r GIG <<http://hiw.org.uk/docs/hiw/guidance/170328inspectnhscy.pdf>> ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Canfuwyd aelod o staff asiantaeth yn defnyddio ei ffôn symudol ac yn syrthio i gysgu wrth ddarparu gofal unigol yn y gilfan arsylwi gofalus ar ward 1.	Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion yn cael eu monitro'n ddigonol a oedd yn cynyddu'r perygl o niwed.	Codwyd y pryder hwn gyda dirprwy reolwr y ward, y fetron a'r cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol.	Trafododd dirprwy reolwr y ward y mater gyda'r aelod o staff dan sylw. Cytunodd y fetron a'r cyfarwyddwr nyrsio cynorthwyol i gyfeirio'r mater at yr asiantaeth i ymdrin ag ef o dan ei phroses ddisgyblu fewnol.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Glan Clwyd

Ward/adran: Ward 1 a Ward 2B

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5, 6 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Glan Clwyd

Ward/adran: Ward 1 a Ward 2B

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5, 6, Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r bwrdd iechyd annog defnydd o'r ystafell weithgareddau a sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o'i bodolaeth.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Sefydlu rota dyddiol i sicrhau'r defnydd gorau posibl a gwarchoddedig o'r ystafell weithgareddau yn ddyddiol.	Arweinydd Tîm ar gyfer Gweithwyr Cymorth Dementia	30/10/2017
Dylai'r bwrdd iechyd barhau ei recriwtio fel y gellir canolbwyntio sgiliau arbennig y gweithiwr cymorth dementia yn llwyr ar ofal a chymorth cleifion â dementia.		Nifer y gweithwyr cymorth dementia i gael ei gynyddu o bump	Metron Gofal Henoed	31/12/2017
		Cynnydd yn nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd i alluogi sgiliau arbenigol y gweithiwr cymorth dementia i gael eu canolbwyntio'n llwyr ar ofal a chymorth	Pennaeth Nyrsio - Meddygaeth	30/11/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cleifion â dementia.		
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y darperir mwy o weithgareddau'n cael eu darparu er mwyn diddanu cleifion hŷn, yn enwedig y cleifion hynny sy'n cael eu harsylwi'n ofalus neu'n derbyn cymorth unigol.		Arweinwyr sifft i nodi cleifion sydd angen gweithgareddau ar yr erchwyn wrth drosglwyddo a hysbysu arweinydd y tîm gweithwyr cymorth dementia yn y cyfarfod diogelwch safle cynnar yn y bore dyddiol.	Metron - Gofal Henoed	31/12/2017
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynllun 'Pili Pala' yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob ward a bod y symbol pili pala'n cael ei ddefnyddio fel mater o drefn i nodi'r cleifion hynny â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol fel y gall staff ddefnyddio technegau priodol wrth roi sylw i gleifion neu gyfathrebu â		Gweithiwr cymorth dementia i gynorthwyo gweithgareddau ar yr erchwyn gan gynnwys cyd-ganu hen ganeuon, bingo, posau, cymdeithion amser bwyd a gweithgareddau amlsynnwyr effeithiol a difyr eraill.	Metron - Gofal Henoed	31/12/2017
		Nodi metron arweiniol i weithio ar y cyd â'r tîm amlddisgyblaeth a'r gwasanaethau corfforaethol i sicrhau cydymffurfiad â safonau ac argymhellion dementia lleol a chenedlaethol.	Metron - Gofal Henoed	Cwblhawyd
		Pob ward ac ardal glinigol i nodi	Nyrs Dementia	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
nhw.		hyrwyddwyr cynllun Pili Pala i weithio gyda'r nyrs dementia arweiniol a hyrwyddo defnydd o'r symbol pili pala yn eu hadrannau	Arweiniol	
Dylai'r bwrdd iechyd wella arwyddion ar y ddwy ward i wneud yr amgylchedd yn fwy ystyriol o ddementia ac i annog annibyniaeth.		<p>Uwchraddio Ward 1 yn unol ag archwiliadau amgylcheddol ward ystyriol o ddementia ac argymhellion Kings Fund.</p> <p>Gweithredu argymhellion archwiliadau a sesiadau risg amgylcheddol yn unol â chynllun gwaith Ward Drefnus.</p> <p>Adolygu lliwiau cefnfyrdau waliau a rheiliau llaw mewn perthynas â chanllawiau cenedlaethol a rhoi sylw iddynt os oes angen.</p>	Rheolwr Cyffredinol Isadrannol Meddygaeth -	30/03/2018
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu sut y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar y bwrdd gwyn ar Ward 2B er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Adolygu dewisiadau yn lle darpariaeth bwrdd gwyn a datblygu canllawiau ar fyrdau gwyn a chynnal cyfrinachedd gwybodaeth sensitif	Pennaeth Nyrsio – Meddygaeth gyda chyngor Llywodraethu Gwybodaeth	30/11/2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu hysbysfyrddau adnabod y staff ar y ddwy ward i gynorthwyo cleifion ac ymwelwyr i nodi 'pwy yw pwy' a beth yw eu swyddogaethau ar y wardiau.</p>		<p>Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer yr hysbysfyrddau sy'n nodi prif nyrs y ward yn cael eu lleoli wrth fynediad y ward</p> <p>Ffeiliau gwybodaeth ar yr erchwyn i gael eu gwneud ar gael i gleifion a theuluoedd gan ddangos "pwy yw pwy?"</p> <p>Arddangosiadau gweledol ychwanegol i gael eu harddangos mewn manau allweddol ar safleoedd yr ysbyty</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd</p>	<p>30/03/2018</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu canllawiau mwy eglur i'r staff ar asesu cleifion sy'n cael eu haildderbyn i'r wardiau i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal yn cael eu nodi.</p>	<p>5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Rheolwyr wardiau i gyfleu pwysigrwydd ailasesu'r holl gleifion y mae angen eu haildderbyn (ac eithrio aildderbyniadau o fewn 24 awr)</p>	<p>Rheolwyr Wardiau</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r gymysgedd o gleifion ar y ddwy ward i sicrhau bod cleifion yn cael eu derbyn i'r cyfleuster mwyaf priodol ac y gellir diwallu eu hanghenion yn llawn.</p>			<p>Mae cynlluniau Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd yn nodi meysydd arbenigol ar gyfer y gwelyau arbenigedd cyfredol ar wardiau 2A a 2B. Caiff rhaniad disgwylidig arbenigeddau ward eu hystyried yng nghan nesaf y prosiect ailddatblygu.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd gymryd mesurau i sicrhau y defnyddir y dogfennau 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi' a 'Dyma Fi' mewn ffordd gyson ar draws y ddwy ward.	6.1 Cynllunio Gofal i hybu annibyniaeth	Dogfennau "Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi" diwygiedig gyda'r argraffwyr. I'w hail-lansio ym mis Ionawr 2018.	Cyfarwyddwyr Nyrsio Cynorthwyol	30/01/2018
		Sesiynau addysgol 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi' a 'Dyma Fi' ar y ward bob dau fis i gefnogi dewis, gwaith partneriaeth, ac eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau	Rheolwr Camu i Lawr	30/10/2017
Dylai'r bwrdd iechyd lunio protocol eglur ar y defnydd o ddrysau wedi eu cloi ar Ward 1 a sicrhau bod y protocol hwn yn cael ei rannu gyda'r holl staff.	6.2 Hawliau pobl	Datblygu arwyddion cyfathrebu allweddol yn hysbysu'r cyhoedd am aseciadau risg a gynhaliwyd gan y wardiau i sicrhau diogelwch y cleifion. Cyngori y dylid cynnwys mesurau a gymerwyd i gael mynediad i'r ward a'i gadael.	Pennaeth Nyrsio	30/09/2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r tymheredd ar ward 2B a chymryd camau cywiro i sicrhau cysur cleifion, ymwelwyr a staff.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd archwiliadau tymheredd a gofnodir o'r amgylchedd ar Ward 2 yn parhau i sicrhau cysur cleifion a theuluoedd. Bydd camau priodol yn parhau i gael eu	Pennaeth Ystadau Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cymryd i sicrhau cysur cleifion, fel diodydd i'w hoeri, lolis rhew a ffaniau a darparu unedau aerdymheru cludadwy.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r achosion o gwmpau ar Ward 1 a chymryd mesurau priodol i leihau'r peryglon.	2.3 Atal Cwmpau	<p>Dangosfyrddau Niwed ar gael ar gyfer pob ward erbyn hyn. Mae gan bob ward lwybr ar gyfer gwella</p> <p>Mae gweithrediad SafeCare yn galluogi i ddiogelwch staffio ward gael ei gymharu mewn amser real yn erbyn nifer o 'faneri coch'.</p> <p>Bydd SafeCare yn cael ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd erbyn mis Mawrth 2019 ond mae eisoes ar waith ar draws Ysbyty Glan Clwyd.</p>	Metron - Gofal Henoed	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau'r defnydd cyson o siartiau cymeriant a chynnyrch ar draws y ddwy ward.	2.5 maetheg a Hydradu	<p>Archwiliad ward wythnosol i fonitro cydymffurfiad nes bod cydymffurfiad o 100% â Siartiau Bwyd Cymru Gyfan a Siartiau Cydbwysedd Hylif</p> <p>Archwiliadau misol wedi hynny</p>	Nyrs Arweiniol Llywodraethu Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Rheolwyr ward i ail-bwysleisio pwysigrwydd siartiau cymeriant a chynnyrch</p> <p>Nodi arweinydd llywodraethu i fwrw ymlaen ag addysg Cydbwysedd Hylif wythnosol ar y ward, i'w hwyluso gan nyrsys datblygu arfer.</p>	<p>Rheolwyr Ward</p> <p>Nyrs Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gallu cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain yn cael ei asesu.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Sicrhau'r defnydd cyson o symbolau cleifion yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd</p> <p>Datblygwyd y polisi ac fe'i rhoddwyd ar waith. Cyflwyniad cychwynnol yn yr adran Gwasanaethau i Fenywod gyda'r bwriad o'i gyflwyno ym maes gofal henoed.</p>	<p>Metron - Gofal Henoed</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir offeryn asesu priodol pan nad yw cleifion yn gallu mynegi anghysur neu boen ar lafar.</p>	<p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Adolygiad o arfer cyfredol ac ystyried defnyddio offerynnau asesu poen cydnabyddedig ar gyfer pobl â namau gwybyddol.</p> <p>Addysg ar y ward o ran arfer gorau ac offerynnau asesu poen amgen i gael eu</p>	<p>Y Tîm Asesu a Thrin Poen.</p>	<p>30/12/2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y defnyddir system sgorio NEWS mewn ffordd gyson a bod dogfennau ysgrifenedig yn cefnogi penderfyniadau ynghylch pam nad yw bwndeli gofal wedi cael eu rhoi ar waith neu pam nad yw'r sgoriau'n cael eu huwchgyfeirio.</p>		datblygu a'u rhoi ar waith.		
		Datblygu a gweithredu rhaglen archwilio yn ystyried y galwadau ataliad y galon a defnydd a chofnodi uwchgyfeiriadau NEWS	Y Tîm Dadebru	30/11/2017
		<p>Cydymffurfriad ag uwchgyfeiriadau NEWS a dogfennau cysylltiedig i fod yn eitem agenda safonol yn y cyfarfod llywodraethu gwasanaeth misol.</p> <p>Atgoffa'r staff trwy gyfarfodydd rheolwyr ward/prif nyrsys am y dysgu sefydliadol i amlygu'r angen i gofnodi uwchgyfeiriadau NEWS</p>	<p>Nyrs Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p> <p>Penaethiaid Nyrsio</p> <p>Metronau</p> <p>Nyrs Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
		<p>Cylch Gorchwyl ac agenda cyfarfodydd llywodraethu gwasanaeth i gael eu hailddrafftio i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.</p> <p>Gwersi a ddysgwyd i gael eu huwchgyfeirio i'r cyfarfod Ansawdd,</p>	<p>Nyrs Arweiniol Llywodraethu Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Diogelwch a Phrofiad y Claf.		
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o symleiddio nodiadau'r cleifion i'w gwneud yn haws i'w defnyddio.	3.5 Cadw cofnodion	Cyflwyno'r defnydd o ranwyr lliw i ganiatáu ffeilio dogfennau'n drefnus a diogel. Bydd hyn yn cynnwys rhannwr Diogelu i ganiatáu i ddogfennau sy'n gysylltiedig â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, MCA, ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed gael eu ffeilio.	Rheolwyr Cyffredinol Isadrannol	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd mesurau i sicrhau bod gallu cleifion i wneud penderfyniadau yn cael ei gofnodi'n gyson.		<p>Cysondeb o ran cofnodi asesiad galluedd meddyliol yn ystod archwiliadau meddygol cleifion</p> <p>Gweithredu cynllun y Grŵp Adolygu Hyfforddiant Gorfodol ar gyfer hyfforddiant Lefel 1 a Lefel 2 ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Hyfforddiant i gynnwys pwysigrwydd cofnodi cyson yn benodol.</p> <p>Dosbarthu'r canllawiau cyfeiriad cyflym ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid <i>"Could your patient be deprived of their liberty"</i> <i>"Deprivation of liberty flowchart – The DoLS Process"</i> i bob adran</p>	<p>Cyfarwyddwyr Clinigol</p> <p>Rheolwr Diogelu Corfforaethol</p>	<p>31/01/2018</p> <p>30/06/2018</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses archwilio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir yn nodiadau gofal y cleifion.</p>		<p>Adolygu canfyddiadau'r rhaglen archwilio gyfredol i sicrhau bod archwiliad o nodiadau achos yn cael ei gynnwys yn briodol yn y cylch busnes archwilio</p>	<p>Cyfarwyddwr Therapiau</p>	<p>31/12/2017</p>
<p>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</p>				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y systemau sydd ar waith i staff leisio pryderon neu fynegi eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol a bod y staff yn cael eu hysbysu am gamau a gymerwyd.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Creu rhybudd diogelwch cleifion penodol i annog y staff i ddefnyddio system adrodd datix</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o'r broses 'man diogel' gyda thimau ward trwy gyfarfodydd metron, a rheolwr ward a theithiau cerdded gan arweinwyr</p> <p>Mireinio teithiau cerdded tîm rheoli'r ysbyty gyda chymhellion diogelwch</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol</p> <p>Penaethiaid Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p>	<p>30/09/2017</p> <p>30/09/2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl wardiau wedi eu staffio'n ddigonol bob amser. I'r perwyl hwn, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud pob ymdrech, gan weithio gyda Gwasanaethau Cyfunol y GIG i gyflymu'r broses recriwtio.</p>	7.1 Gweithlu	<p>Cynyddu nifer y gweithwyr cymorth dementia o bump.</p> <p>Cyflwyno <i>SafeCare</i> i gefnogi egwyddorion staffio diogel a galluogi staffio seiliedig ar aciwtedd mewn amser real ac yn rhan o gynllunio a phennu niferoedd.</p> <p>Parhau gyda rhaglenni recriwtio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.</p>	<p>Metron - Gofal Henoed</p> <p>Rheolwr E-restru</p>	<p>30/12/2017</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Ar waith</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheoli yn amlwg ar y wardiau a'u bod yn gwneud eu hunain ar gael i gleifion, ymwelwyr a staff.</p>		<p>Cryfhau'r teithiau cerdded arweinwyr ar draws bob rhan o'r Bwrdd Iechyd</p> <p>Mireinio teithiau cerdded tîm rheoli'r ysbyty gyda chymhellion diogelwch</p> <p>Cyflwyno Polisi Ymweld Agored i alluogi'r tîm rheoli i fod ar gael i gleifion, ymwelwyr a staff</p>	<p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt Rheoleiddio</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30/09/2017</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu gofal i bobl â namau gwybyddol.</p>		<p>Cyflwyno'r cynllun Hyfforddiant Gorfodol ar gyfer Lefel 1 a Lefel 2 ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant Lefel 1; bydd yr holl staff clinigol yn derbyn hyfforddiant Lefel 2. Hyfforddiant i gynnwys pwysigrwydd cofnodi cyson yn benodol.</p> <p>Cynyddu nifer y gweithwyr cymorth dementia a fydd yn codi ymwybyddiaeth o namau gwybyddol.</p>	<p>Proffesiynol</p> <p>Diogelu Corfforaethol</p> <p>Metron - Gofal Henoed</p>	<p>30/06/2018</p> <p>30/12/2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael digon o amser i fynychu hyfforddiant.</p>		<p>Adolygiad Personol a Datblygu i gael ei gwblhau ar gyfer yr holl staff i nodi anghenion hyfforddiant personol a phroffesiynol trwy broses werthuso (PADR).</p> <p>Cyfraddau PADR i gael eu monitro ar lefel isadran a Bwrdd</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>30/03/2018</p> <p>Ar waith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r lefelau staffio ar Ward 1 a chymryd camau i sicrhau bod y ward wedi ei staffio'n ddigonol bob amser a sicrhau y rhoddir digon o amser a chymorth angenrheidiol i reolwr y ward gyflawni ei chyfrifoldebau gweinyddu a rheoli.</p>		<p>Cyflwyno <i>SafeCare</i> i gefnogi egwyddorion staffio diogel a galluogi staffio seiliedig ar aciwtedd mewn amser real ac yn rhan o gynllunio a phennu niferoedd.</p> <p>Parhau gyda rhaglenni recriwtio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol</p> <p>Gweithio gyda Gwasanaethau ar y Cyd i gyflymu recriwtio</p>	<p>Rheolwr E-restru</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrso Cyswllt Rheoleiddio Proffesiynol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Ar waith</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses trosglwyddo sifftiau i gynnwys y gweithiwr cadw tŷ er mwyn iddo dderbyn gwybodaeth am</p>		<p>Gweithiwr cadw tŷ i gael ei gynnwys yn y broses trosglwyddo sifftiau</p>	<p>Metron - Gofal Henoed</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
anghenion deietegol y cleifion.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Alison Griffiths

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol, Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad: 13 Medi 2017